**Memorandwm Esboniadol i'r Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Datganiad Blaenoriaethau ac Amcanion Strategol i Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Dirprwy Brif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**11 Chwefror 2026**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r blaenoriaethau ac amcanion strategol (SPS) ar gyfer Ofwat wrth gyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â Chymru.

1.2 Wrth baratoi'r SPS, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddyletswyddau statudol Ofwat, materion cymdeithasol ac amgylcheddol ac unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn credu eu bod yn briodol. Dylai Ofwat ymgorffori'r blaenoriaethau a nodir yn yr SPS wrth reoleiddio cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.
Rhaid i Ofwat eu cyflawni'n unol â'r SPS. Maent yn cynnwys datblygu ei fethodoleg ar gyfer adolygiad prisiau 2029 sy'n gosod y fframwaith ar gyfer buddsoddi gan gwmnïau dŵr a blaenoriaethau lefel gwasanaeth ac yn pennu taliadau am ddŵr ar gyfer y cyfnod 2030-2035.

1.3 Mae'r SPS hwn yn ategu'r SPS a gyhoeddwyd yn 2022 i nodi ein disgwyliadau ar gyfer y cyfnod pontio wrth i'r agenda diwygio dŵr gael ei datblygu a'i gweithredu yn dilyn cyhoeddi Adroddiad y Comisiwn Dŵr Annibynnol yn 2025

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Mewnosodwyd adran 2B gan adran 24 o Ddeddf Dŵr 2014 yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol ar gyfer Ofwat mewn perthynas â'i swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â Chymru. Rhaid i Ofwat gyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â'r datganiad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

3.2 Wrth baratoi'r SPS, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddyletswyddau statudol Ofwat, materion cymdeithasol ac amgylcheddol ac unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn credu eu bod yn briodol. Nodir y rhain yn Atodiad A yr SPS. Dylai Ofwat ymgorffori'r blaenoriaethau a'r amcanion a nodir yn yr SPS wrth reoleiddio cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

3.3 Mae'r offeryn hwn yn cael ei osod yn unol ag adran 2B(5) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd annibynnol y diwydiant dŵr yng

Nghymru a Lloegr. Mae'r SPS hwn yn nodi disgwyliadau Gweinidogion Cymru i Ofwat ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn dryloyw â rhanddeiliaid Cymru ac i ddatblygu dull rheoleiddio sy'n gallu bodloni gofynion penodol Cymru orau.

4.2. Mae'r datganiad hwn yn nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ofwat yn ystod y cyfnod pontio i fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer Cymru, gan gydnabod y bydd Ofwat yn ymateb hefyd i gyfarwyddyd Llywodraeth y DU ar ddiwygio dŵr yn Lloegr. Mae'n adlewyrchu rhaglen diwygio dŵr Llywodraeth Cymru, y Cynllun Pontio, a'r bwriad polisi a amlinellir yn y Papur Gwyrdd ar gyfer Diwygio Llywodraethu Dŵr i Gymru.

4.3 Fel mesur interim, mae'r Datganiad hwn yn adeiladu ar yr SPS i Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn 2022 i sicrhau bod y cyfarwyddyd yn parhau drwy'r cyfnod hwn o ddiwygio. Wrth ymateb i'r SPS hwn, dylai Ofwat barhau i weithredu yn unol â SPS 2022

## 5. Ymgynghori

*5.1 Dyletswydd i ymgynghori*
Rhwng Tachwedd 2025 a mis Ionawr 2026, yn unol ag adran 2B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol

- Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CCW)
- Y cwmnïau dŵr y bydd y canllawiau a gynigir yn debygol o effeithio arnyn nhw.
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed
- Llywodraeth y DU
- Ofwat
- EA

5.3 Cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda'r rhanddeiliaid i lywio'r paratoadau ar gyfer SPS drafft a gafodd ei rannu wedyn ym mis Ionawr 2026 i'w ystyried ymhellach.

5.4 Roedd yr ymgyngoreion yn gyffredinol yn gefnogol i'r SPS drafft.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Nid oes RIA wedi'i baratoi ar gyfer yr offeryn hwn gan ei fod yn nodi polisi'r Llywodraeth a deddfwriaeth sy’n bod eisoes ac nid yw'n gosod unrhyw ddyletswyddau na chostau newydd ar Lywodraeth Cymru na thrydydd partïon. Mae hyn yn cydymffurfio â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.